
Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymru a'r Byd
## Papur Briffio

Rhagfyr 2024



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymru a'r Byd
## Papur Briffio

Rhagfyr 2024

**Awduron:**
Sara Moran, Madelaine Phillips a Sian Hughes

**Mae'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn cynnal sesiwn ar 13 Rhagfyr 2024 gydag Eluned Morgan AS, y Prif Weinidog, a fydd yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â "Chymru a'r Byd".**

**Mae'r papur briffio hon yn nodi rhai o'r prif pynciau y gallai'r Pwyllgor eu trafod.**

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

**2. Rolau a chyfrifoldebau ........ 1**

Y Prif Weinidog ........ 1

Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd ........ 2

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio ........ 2

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip ........ 2

**3. Strategaeth Ryngwladol: trosolwg ........ 3**

Cysylltiadau sy'n cael blaenoriaeth ........ 3

Swyddfeydd tramor ........ 4

Cytundebau rhyngwladol dwyochrog ........ 4

Blynyddoedd hyrwyddo 'Cymru yn' ........ 5

Ffeithlun ........ 6

**4. Strategaeth Ryngwladol: cyflawni ........ 7**

**5. Cysylltiadau rhyngwladol y tu hwnt i 2025 ........ 8**

Prif Weinidog Cymru yn cyhoeddi Cynllun Cyflawni Rhyngwladol newydd ........ 9

Cysylltiadau rhwng Cymru ac Unol Daleithiau America ........ 9

**6. Cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd ........................................ 10**

Ailosod y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ........................................ 10

Cysylltiadau rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ........................................ 11

Masnach rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ........................................ 12

Adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ........................................ 12

**7. Materion rhyngwladol cyfoes ........................................ 13**

Gwrthdaro rhyngwladol ........................................ 13

Y Dwyrain Canol ........................................ 13

Wcráin ........................................ 14

Y Cynllun Cenedl Noddfa ........................................ 15

Trethi ffiniau carbon ........................................ 15

Cyllid ar gyfer mentrau newid hinsawdd rhyngwladol ........................................ 16

Addysg ........................................ 16

Dysgu Ieithoedd Tramor Modern ........................................ 16

Myfyrwyr B(NO) Hong Kong yng Nghymru ........................................ 18

# 1. Cyflwyniad

Mae cysylltiadau rhyngwladol yn faterion a gedwir yn ôl, fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 10 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn hefyd yn gymwys i fasnach ryngwladol a chymorth datblygu a chydweithredu rhyngwladol.

Fodd bynnag, mae lle o fewn materion a gedwir yn ôl i Lywodraeth Cymru weithredu mewn swyddogaeth ryngwladol yn y meysydd a restrir uchod. Wrth edrych yn agosach, mae llawer o agweddau yn perthyn i'r gwledydd datganoledig, sydd â'u hanes, eu partneriaid a'u hymagweddau rhyngwladol eu hunain. Er enghraifft, mae gan lywodraethau **Cymru** a'r **Alban** eu strategaethau rhyngwladol eu hunain, a **chytundebau nad ydynt yn rhwymol** gyda gwledydd a rhanbarthau eraill. Ymysg yr enghreifftiau ymarferol eraill, gall Llywodraeth Cymru:

- agor swyddfeydd dramor a chwrdd â chymheiriaid o wledydd eraill;
- cyflwyno sylwadau am unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys materion rhyngwladol; ac
- mae'n rhaid iddi gadw at rwymedigaethau cyfreithiol rhyngwladol a'u rhoi ar waith.

Mae gan Gymru lawer o gysylltiadau rhyngwladol, y mae rhai ohonynt yn rhagflaenu'r Deyrnas Unedig, a chaiff y rhain eu hadlewyrchu yn ei threfniadau cysylltiadau rhyngwladol.

# 2. Rolau a chyfrifoldebau

Mae'r adran hon yn crynhoi'r prif rolau a chyfrifoldebau yn Llywodraeth Cymru ar gyfer cysylltiadau rhyngwladol.

## Y Prif Weinidog

Symudodd cysylltiadau rhyngwladol i bortffolio'r Prif Weinidog yn 2021 ar ôl penderfyniad i beidio ag ailbenodi gweinidog cysylltiadau rhyngwladol i'r Cabinet (swydd y bu'r Prif Weinidog presennol yn ei chyflawni rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Hydref 2020). Mae'r Prif Weinidog yn gyfrifol am:

- gysylltiadau rhyngwladol gan gynnwys y rhwydwaith swyddfeydd tramor;
- Cymru ac Affrica;
- Cymru ac Ewrop;

- diogelwch cenedlaethol gan gynnwys gwrthderfysgaeth a seiberddiogelwch; a'r
- Cod Gweinidogol (sy'n cynnwys dyletswyddau rhwymedigaethau rhyngwladol).

## Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog, Huw Irranca-Davies AS, yn gyfrifol am:

- oruchwylio'r polisi ffiniau; a
- materion cyfansoddiadol.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Mae Ysgrifennydd y Cabinet, Rebecca Evans AS, yn gyfrifol am:

- bolisi masnach ryngwladol;
- cymorth allforio; a
- chydlynu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Cytundeb yn gosod y telerau ar gyfer cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip

Mae Ysgrifennydd y Cabinet, Jane Hutt AS, yn gyfrifol am:

- gydgysylltu materion sy'n ymwneud â ffoaduriaid, ceiswyr lloches, mudo a chydlyniant cymunedol; a
- hawliau dynol a chydraddoldeb, gan gynnwys hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru ar ôl Brexit.

# 3. Strategaeth Ryngwladol: trosolwg

2024 yw pedwaredd flwyddyn **strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru** (2020-2025). Mae'r strategaeth hon yn nodi tri uchelgais craidd i:

1. godi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol;
2. tyfu economi Cymru drwy gynyddu allforion a denu buddsoddiadau o'r tu allan; a
3. sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Mae **pum cynllun gweithredu** yn cyd-fynd â'r strategaeth ar:

i. Ymgysylltu â Chymry ar wasgar;

ii. Cysylltiadau a rhwydweithiau rhanbarthol sy'n cael blaenoriaeth;

iii. Cysylltiadau rhyngwladol drwy ddiplomyddiaeth gyhoeddus a phŵer meddal;

iv. Cymru ac Affrica; a'r

v. Cynllun Gweithredu Allforio.

## Cysylltiadau sy'n cael blaenoriaeth

Mae'r Strategaeth yn nodi cysylltiadau sy'n cael blaenoriaeth gan Gymru fel a ganlyn:

- **Gwledydd blaenoriaeth:** Yr Almaen, Ffrainc, Iwerddon, UDA a Chanada.
- **Rhanbarthau blaenoriaeth:** Gwlad y Basg, Llydaw a Fflandyrs

Dewiswyd y rhain:

> oherwydd treftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol gyffredin, gwerthoedd cyffredin a buddiannau economaidd a chymdeithasol cyffredin.

Rhoddir sail resymegol fanylach yn y Strategaeth ar gyfer pam y dewiswyd pob partner blaenoriaeth. Er enghraifft, mae'n dweud bod yr Almaen a Ffrainc yn bartneriaid masnachu pwysig ac mai Iwerddon yw cymydog Ewropeaidd agosaf Cymru.

## Swyddfeydd tramor

Mae rhwydwaith Llywodraeth Cymru o **20 o swyddfeydd tramor mewn 11 gwlad** yn ategu'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth. Mae gan bob swyddfa gylch gwaith, a nodir mewn **dogfen a gyhoeddwyd yn 2020**, sy'n esbonio sut mae pob swyddfa:

> yn rhoi pwyslais gwahanol ar bob uchelgais i adlewyrchu'r elw a'r perthnasedd posibl i'r farchnad maen nhw'n gweithio ynddi.
>
> Er hynny, bydd gan bob swyddfa gylch gwaith cyffredin i ddod o hyd i gyfleoedd denu mewnfuddsoddiad er mwyn i dîm Cymru gyfan allu darparu a sicrhau buddsoddiadau i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ar y rhwydwaith swyddfeydd tramor. Mae tri wedi eu cyhoeddi hyd yn hyn ar gyfer **2021-22**, **2022-23** a **2023-24**.

## Cytundebau rhyngwladol dwyochrog

Gall Llywodraeth Cymru lunio cytundebau nad ydynt yn rhwymol, fel Memoranda Cyd-ddealltwriaeth, cynlluniau gweithredu ar y cyd a chytundebau cyfeillgarwch, mewn meysydd datganoledig. Mae ganddi gytundebau â gwledydd, rhanbarthau a dinasoedd.

Dangosir naw cytundeb ar **dudalen we bwrpasol** ar wefan Llywodraeth Cymru, a sefydlwyd ar gais y pwyllgor sy'n gyfrifol am gysylltiadau rhyngwladol, sef y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ("Pwyllgor Diwylliant"). 'Cytundebau dwyochrog rhyngwladol' oedd teitl gwreiddiol y dudalen we ond newidiwyd hyn yn ddiweddarach i 'gytundebau dwyochrog trawsbynciol' gan fod y Pwyllgor Diwylliant wedi **cyfnewid gohebiaeth** gyda'r cyn-Brif Weinidog, Vaughan Gething AS, ar gytundebau oedd yn ymddangos ar goll ohoni. Er enghraifft, nid yw **cytundeb recriwtio gofal iechyd** Llywodraeth Cymru gyda thalaith Kerala yn India ar y dudalen we. Eglurodd y Prif Weinidog blaenorol:

> Mae'r dudalen we wedi'i diweddaru i adlewyrchu ac egluro mai'r cytundebau dwyochrog ar y dudalen hon yw'r rhai sy'n cael eu darparu ar draws y llywodraeth, wedi'u cydlynu gan fy nhîm Cysylltiadau Rhyngwladol, yn hytrach na chytundebau polisi unigol.

Canlyniad y dull diwygiedig hwn yw nad oes lle penodol ar wefan Llywodraeth Cymru (nac unrhyw le arall) sy'n nodi faint o gytundebau dwyochrog rhyngwladol sydd gan Lywodraeth Cymru ar waith, na gyda phwy.

Mae'r cytundebau sydd ar y dudalen we yn rhai gydag:

1. Iwerddon
2. Québec
3. Gwlad y Basg
4. Llywyddiaeth Oita
5. Fflandrys
6. Llydaw
7. Baden-Württemberg
8. Silesia
9. Birmingham, Alabama

## Blynyddoedd hyrwyddo 'Cymru yn'

Mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar bartner rhyngwladol gwahanol bob blwyddyn ers 2021. Hyd yma, y partneriaid fu yr Almaen (2021), Canada (2022) a Ffrainc (2023).


Y nod yw dangos y cysylltiadau rhwng Cymru a'r gwledydd hyn drwy gymorth rhaglen wedi ei chynllunio o weithgareddau a digwyddiadau sy'n dathlu'r cysylltiadau hyn.

2024 yw blwyddyn 'Cymru yn India', sydd â **chyllideb o £246,830**. Crynhoir y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn mewn **Erthygl gan Ymchwil y Senedd**. '**Cymru yn Japan**' fydd yn digwydd yn 2025.

Mae Llywodraeth Cymru **wedi cynghori** bod blynyddoedd blaenorol 'Cymru yn' wedi bod yn destun gwerthusiad (naill ai'n fewnol neu'n annibynnol) ond nid yw'r rhain yn cael eu cyhoeddi. Ni rannwyd y rhain gyda'r Pwyllgor Diwylliant yn dilyn **cais i'r Prif Weinidog**.

## Ffeithlun

Mae'r ffeithlun isod yn dangos cysylltiadau sy'n cael blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru, ei swyddfeydd tramor, ei chytundebau rhyngwladol dwyochrog a blynyddoedd hyrwyddo.



# 4. Strategaeth Ryngwladol: cyflawni

Cyhoeddwyd y Strategaeth Ryngwladol ym mis Ionawr 2020 a'i phum cynllun gweithredu ym mis Tachwedd 2020. Er nad yw'r strategaeth ryngwladol yn cynnwys dyddiadau penodol, mae'r cynlluniau gweithredu yn rhestru gweithgareddau 'tymor canolig' (2020-21) a thymor canolig (2022-25) heb nodi ym mha flwyddyn y cynhelir y gweithgareddau.

Mae tua 270 o gamau gweithredu yn y Strategaeth a'r cynlluniau gweithredu. Mae'r rhestr yn cynnwys camau gweithredu sydd wedi eu categoreiddio fel rhai tymor byr neu ganolig, sy'n cael eu rhagflaenu gan 'byddwn yn' neu sy'n cael eu rhoi mewn blwch testun camau gweithredu ar wahân.

Dyma enghreifftiau:

- tyfu ein heconomi drwy gynyddu'r cyfraniad mae allforion yn ei wneud at economi Cymru 5%;
- cynyddu ein presenoldeb yn aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd a gweithio i sicrhau mai'r Undeb Ewropeaidd yw ein partner cryfaf o hyd;
- dod yn adnabyddus fel y wlad gyntaf i wneud Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn gyfraith gwlad, drwy hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
- cynnal o leiaf dri chyfarfod y flwyddyn gyda sefydliadau unigol ymgysylltu â phobl ar wasgar; a
- dod yn adnabyddus fel cenedl sy'n arwain y byd o ran ailgylchu.

Mae'r **Pwyllgor Diwylliant wedi ceisio** canfod faint o'r 270 o gamau gweithredu'r Strategaeth sydd wedi cael eu cyflawni a faint sydd ar ôl i'w cyflawni.

Ym mis Mehefin 2024, rhannodd y Pwyllgor ei restr o gamau gweithredu gyda'r cyn-Brif Weinidog, Vaughan Gething AS, a gofynnodd am gadarnhad ynghylch a oedd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'i ddadansoddiad. **Ysgrifennodd y cyn-Brif Weinidog** at y Pwyllgor ar 1 Awst i ddweud:

> Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am ddarparu'r rhestr o gamau gweithredu yr ydych wedi'u nodi ar draws y Strategaeth a'i chynlluniau gweithredu cysylltiedig. Fel y soniwyd yn ystod ein sesiwn graffu, rwyf wedi gofyn i swyddogion symud i ffwrdd oddi wrth ysgrifennu adroddiadau a chanolbwyntio ar gyflawni ein gweithgarwch. Wedi dweud hynny, rwy'n cytuno â'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor ei bod yn bwysig cael set glir o feysydd cyflawni y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd a chredaf fod y camau hyn yn rhoi'r eglurder hwnnw.

O ran cynlluniau i adnewyddu'r Strategaeth Ryngwladol wrth i'w therfyn yn 2025 agosáu, ychwanegodd:

> mae swyddogion yn cynnal adolygiad o'r cynnydd yn erbyn cyflawni fel rhan o'r adolygiad i ddiweddaru'r Strategaeth Ryngwladol a gynhelir yn ystod y misoedd nesaf. Rwyf wedi gofyn i swyddogion roi sesiwn friffio ar wahân i chi ar y meysydd cyflawni, fel rhan o'r hyn sy'n cael ei wneud ar y gwaith diweddaru, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu.

Nid yw'r Pwyllgor wedi cael yr wybodaeth hon eto ac nid yw wedi canfod faint o gamau gweithredu sydd wedi eu cyflawni, neu sydd ar ôl i'w cyflawni.

# 5. Cysylltiadau rhyngwladol y tu hwnt i 2025

Wrth i ddiwedd y Strategaeth Ryngwladol agosáu, mae'r Pwyllgor Diwylliant wedi trafod cysylltiadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru y tu hwnt i 2025 gyda'r cyn-Brif Weinidogion, **Mark Drakeford AS** a **Vaughan Gething AS**. Ymrwymodd y cyntaf i adfywio'r Strategaeth yn 2025 i gwmpasu'r amser tan etholiad Senedd 2026, a chadarnhaodd yr olaf fod cynlluniau i adolygu'r adnewyddiad ar y gweill. Ymrwymodd y ddau gyn Brif Weinidog i gynnwys y Pwyllgor Diwylliant yn y gwaith hwn.

Mae gan y Pwyllgor ymgynghoriad agored ar **flaenoriaethau rhyngwladol Llywodraeth Cymru**, gyda'r dyddiad cau, drwy gyd-ddigwyddiad, yr un dyddiad â chyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog (dydd Gwener 13 Rhagfyr).

Ar 22 Hydref, **holodd y Cadeirydd, Delyth Jewell AS, y Prif Weinidog newydd** beth oedd ei blaenoriaethau rhyngwladol ac ynghylch adnewyddu'r Strategaeth:

> Allwch chi plîs osod mas yr amserlenni presennol sydd gennych chi ar gyfer y gwaith pwysig hwn, gan gynnwys pryd y byddwch chi'n ymgynghori â rhanddeiliaid a hefyd â'r pwyllgor?

Ymatebodd Eluned Morgan AS, y Prif Weinidog cyfredol:

> fel dwi'n dweud, beth sydd o ddiddordeb i fi nawr yw delifro ar y polisïau sydd gyda ni, ar y strategaethau sydd gyda ni, a dwi'n awyddus bod pobl yn parhau i ganolbwyntio tan ein bod ni'n dod i bwynt i baratoi ar gyfer y bennod nesaf. Nawr, wrth gwrs, pan fyddwn ni'n dechrau paratoi beth fydd yn dod nesaf o ran blaenoriaethau, dwi'n siŵr bydd pethau fel y ffaith ein bod ni wedi cael investment summit a oedd yn llwyddiannus dros y Deyrnas Unedig, beth yw'n rôl ni, beth y gallwn ni ei wneud o fewn buddsoddi, cael mwy o fuddsoddiad o du fas i Gymru—. Mae yna lot o bethau, dwi'n meddwl, gallwn ni eu gwneud pan fo'n dod i flaenoriaethu yn y dyfodol, ond beth sydd o ddiddordeb i fi nawr yw

> delifro ar beth sydd yn y strategaeth bresennol. Ond, wrth gwrs, bydd yna gyfle i bobl ymuno yn yr ymgynghoriad pan ddaw hwnnw.

## Prif Weinidog Cymru yn cyhoeddi Cynllun Cyflawni Rhyngwladol newydd

Ar 21 Tachwedd, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad i'r wasg** yn manylu ar sut roedd y Prif Weinidog wedi cynnal derbyniad yn Llundain gyda llysgenhadon ac uchel gomisiynwyr yn y Deyrnas Unedig. Roedd hyn, dywedwyd, yn gyfle i'r Prif Weinidog "gwrdd â›r gymuned ddiplomyddol ehangach, nodi ei blaenoriaethau a thrafod y cyfleoedd sydd ar gael i Gymru gyda chynrychiolwyr o genhedloedd eraill". Mae hefyd yn dyfynnu'r Prif Weinidog yn dweud:

> Yn gynnar y flwyddyn nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ein Cynllun Cyflawni Rhyngwladol, a fydd yn nodi'r gweithgareddau rhyngwladol i gefnogi'r gwaith o gyflawni fy mhedair blaenoriaeth.

Nid yw'r datganiad yn cadarnhau a yw hyn yn cyfeirio at **bedwar maes blaenoriaeth domestig** y Prif Weinidog ynteu blaenoriaethau rhyngwladol newydd.

## Cysylltiadau rhwng Cymru ac Unol Daleithiau America

Mae UDA yn un o **flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran cysylltiadau rhyngwladol**.

Yn dilyn ailethol yr Arlywydd Donald Trump, **postiodd** y Prif Weinidog ar X:

> Congratulations President-elect Donald Trump.
>
> Llongyfarchiadau ar gael eich ethol yn Arlywydd Unol Daleithiau America.
>
> Wales and the USA have a strong relationship which we highly value. We look forward to continuing that partnership for the benefit of all our people.

Ar 14 Tachwedd, bu'r Prif Weinidog yn siarad ar Radio Five Live ac **ymatebodd i gwestiwn** ynghylch a oedd hi o'r farn bod yr Arlywydd Trump yn hiliol. Dyma ei hymateb, fel y'i trawsgrifiwyd o'r darllediad:

> I shouldn't think he is, to be honest. There were a hell of a lot of black people and Latinos who voted for him in the election and you've got to respect the vote of the American people. That is what happened. It makes sense and we need a strong relationship with the United States, irrespective of who leads the country. It's our biggest area in terms of inward investment. We've got a lot of American companies invested in Wales. We're keen to make sure our exporters can export and we are

> worried about the potential of additional tariffs on them because it will hit our economy so we've got to try and keep as good a relationship with the United States as we can, irrespective of who is the President.

Cynhaliodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig **sesiwn graffu gyffredinol** gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, ar 14 Tachwedd. Gofynnwyd i Ysgrifennydd y Cabinet a allai Llywodraeth Cymru ailgyfeirio busnes i Ewrop os yw'r llwybrau i'r Unol Daleithiau yn mynd yn anodd iawn. Ymatebodd fel a ganlyn:

> It is early days and we have yet to see what the Trump administration's actions will be. But I know it's very firmly on our minds in terms of being able to provide the right information, advice and support to our businesses, because America is a really important market for us as well.

O ran y Dwyrain Canol a'r Arlywydd etholedig Trump, **dywedodd y Prif Weinidog ar 19 Tachwedd yn sesiwn Gwestiynau'r Prif Weinidog**:

> Rwy'n ofni nad yw'n edrych fel bod llawer o gynnydd o ran setlo'r mater yn y dwyrain canol. Rwy'n gwybod y bydd llawer o ddiddordeb, pan fydd Llywodraeth newydd yn cymryd yr awenau yn yr Unol Daleithiau, i weld a yw hynny'n gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl, a sut y bydd hynny'n effeithio arno, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod ni'n sefyll gyda thristwch a dioddefaint pobl Gaza.

Cyn yr etholiadau yn yr Unol Daleithiau, **trafododd y goblygiadau o ran materion amgylcheddol** yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 5 Tachwedd.

> Byddwn ni i gyd yn dal ein hanadl wrth wylio canlyniad yr etholiad hwnnw, a fydd yn cael effaith ddwys ar Gymru a'r byd. Bydd effaith ar newid hinsawdd, yn dibynnu ar bwy fydd yn ennill, a bydd yn effeithio ar bob un ohonon ni. Felly, deellir yn iawn pa mor bwysig ydyw ein bod ni'n gwarchod natur yng Nghymru. Rwy'n gobeithio y bydd pobl yr Unol Daleithiau yn deall eu cyfrifoldebau nhw hefyd yn hynny o beth.

# 6. Cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd

## Ailosod y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd

Cynhaliodd y Prif Weinidog, Keir Starmer AS, **bedwerydd uwchgynhadledd y Gymuned Wleidyddol Ewropeaidd** ym Mhalas Blenheim ym mis Gorffennaf ac ailadroddodd ei nod i 'ailosod' y berthynas rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae wedi rhestru meysydd ar gyfer cydweithredu agosach fel amddiffyn a diogelwch, newid yn yr hinsawdd, mudo afreolaidd, ac ar sicrhau twf economaidd.

Er mwyn cyflawni'r ailosod, fe wnaeth **Llywodraeth y Deyrnas Unedig hysbysebu** swydd newydd ym mis Tachwedd a ddisgrifiwyd fel 'uwch gynrychiolydd phersonol y prif weinidog mewn uwchgynadleddau ac ymrwymiadau rhyngwladol'. **Cynghorodd llefarydd ar ran Swyddfa'r Cabinet**:

> As we reset our relationship with the EU, building closer trade and security links and encouraging more investment from around the world, this new role will oversee that work. [...] Reporting to the minister for European Union relations, they will lead official-level discussions with the EU as we drive economic growth.

**Mae'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd hefyd wedi cyhoeddi** eu bwriad i gynnal uwchgynadleddau rheolaidd ar lefel yr arweinwyr i oruchwylio eu perthynas, gan ddechrau 'yn gynnar yn 2025'. Nid yw'n glir sut bydd hyn nac yn wir a fydd hyn yn rhyngweithio â'r trefniadau llywodraethu a sefydlwyd ar ôl Brexit fel rhan o fframwaith sefydliadol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, gan gynnwys ei gorff goruchwylio, y Cyngor Partneriaeth.

## Cysylltiadau rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd

Mae'r ddau Brif Weinidog blaenorol diweddar yn aml wedi amlygu arwyddocâd yr Undeb Ewropeaidd i Gymru, gan ei ddisgrifio "**ymhlith ein perthnasoedd pwysicaf, mwyaf sefydledig**" (Mark Drakeford AS) a'r "**partner masnachu agosaf a phwysicaf**" (Vaughan Gething AS).

Yn 2021, **daeth y Pwyllgor Diwylliant i'r casgliad**:

> Mae'n amlwg bod y berthynas rhwng y DU a'r UE yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac i randdeiliaid yng Nghymru. Fodd bynnag, mae absenoldeb strategaethau pwrpasol ar gyfer cysylltiadau'r DU a'r UE ar lefel y DU a Chymru yn cynrychioli heriau wrth lywio, a chyflawni gwaith craffu effeithiol ar y berthynas rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit

Erbyn mis Tachwedd 2023, roedd y Pwyllgor Diwylliant wedi **cyhoeddi argymhellion allweddol** ar gyfer perthynas Cymru â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys galw am strategaeth benodol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd, ac i'r Undeb Ewropeaidd gael ei gynnwys fel perthynas flaenoriaeth. **Ymatebodd Mark Drakeford AS, y cyn Brif Weinidog**, gan ddweud y gallai dimensiwn Ewropeaidd y Strategaeth Ryngwladol gael ei wneud yn "fwy eglur" pan gaiff ei hadnewyddu yn 2025.

Ym mis Tachwedd 2023 hefyd, **fe wnaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad argymell** y dylai Llywodraeth Cymru fynegi "blaenoriaethau strategol a gweledigaeth glir" ar gyfer cysylltiadau â'r Undeb Ewropeaidd, naill

ai mewn strategaeth benodol ar yr Undeb Ewropeaidd neu yn y Strategaeth Ryngwladol ddiwygiedig. **Dywedodd y cyn-Brif Weinidog, Mark Drakeford AS**, nad oedd o'r farn bod angen strategaeth ar wahân ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd bryd hynny, safbwynt a oedd yn unol â barn ei olynydd, Vaughan Gething AS, **ym mis Mehefin 2024**.

Nid yw'r Prif Weinidog newydd wedi rhoi ei barn eto ar sut bydd yn bwrw ymlaen â'r materion hyn.

## Masnach rhwng Cymru a'r Undeb Ewropeaidd

Yr Undeb Ewropeaidd yw partner masnachu mwyaf Cymru. Mae Cymru yn fwy dibynnol ar allforio i'r Undeb Ewropeaidd, ac yn llai dibynnol ar fewnforion yr Undeb Ewropeaidd, na chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig yn unigol a'r Deyrnas Unedig gyfan.

Mae **ystadegau masnach diweddaraf** Cymru (ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mehefin 2024) yn dangos bod gwerthoedd allforio i'r Undeb Ewropeaidd yn cyfrif am oddeutu 58.6% o werthoedd allforio Cymru (£10.9 biliwn) o'i gymharu â 50.3% ar gyfer y Deyrnas Unedig.

Ar gyfer mewnforion o'r Undeb Ewropeaidd, mae gwerthoedd mewnforio Cymru yn llai na chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig a'r Deyrnas Unedig gyfan. Mae mewnforion yr Undeb Ewropeaidd yn cyfrif am 35.3% o werthoedd mewnforio Cymru (£7.5 biliwn) o'i gymharu â 54.4% ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan.

Ar 14 Tachwedd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans AS, wrth **Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**:

> we have a really, really laser-like focus on trade with the EU.

## Adolygiad o weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Mae cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit yn cael eu llywodraethu gan nifer o gytundebau dwyochrog. Y prif gytundeb yw'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** a oedd yn gymwys o 1 Ionawr 2021 ac a ddaeth i rym yn llawn o 1 Mai 2021.

Mae angen adolygiad gweithredu bob pum mlynedd a disgwylir i'r adolygiad cyntaf gael ei gynnal drwy gydol 2025.

Cadarnhaodd cyn-ysgrifenyddion y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg a Diwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, Jeremy Miles AS a Lesley Griffiths AS, ym mis Mehefin mai **blaenoriaethau Llywodraeth Cymru** ar gyfer yr adolygiad yw:

1. Yr angen am gytundeb ar faterion milfeddygol ac iechyd planhigion (Gwiriad Iechydol a Ffytoiechydol) i leihau beichiau gweinyddol, a rhwystrau heblaw am dariffau sy'n llesteirio masnach (byddai hyn yn lleihau'r angen am arolygiadau o anifeiliaid byw a chynhyrchion anifeiliaid);
2. Mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â symudedd gweithwyr a darparu gwasanaethau, megis y rhwystrau newydd sy'n wynebu artistiaid teithiol;
3. Yr angen i wella'r trefniadau ar gyfer Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol er mwyn hwyluso gweithgarwch economaidd mewn sectorau gwasanaethau allweddol, megis ymchwil; ac
4. Archwilio opsiynau i ailymuno â rhaglenni'r Undeb Ewropeaidd fel Erasmus+ ac Ewrop Greadigol. Ar ôl Brexit, datblygodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen cyfnewid dysgu rhyngwladol ei hun, Taith. **Gostyngwyd cyllideb Taith** £1.6 miliwn (o £8.1 i £6.5 miliwn) ar gyfer 2024-25, sy'n 19.8% o ostyngiad.

Ychwanegodd Ysgrifenyddion y Cabinet y bydd blaenoriaethau pellach yn cael eu datblygu wrth i'r adolygiad agosáu.

# 7. Materion rhyngwladol cyfoes

## Gwrthdaro rhyngwladol

### Y Dwyrain Canol

Ar 17 Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru rodd o £100,000 at Apêl Ddyngarol y Dwyrain Canol DEC. Dilynwyd y mater yn agos gan y Pwyllgor Deisebau a Diwylliant yn dilyn **deiseb i'r Senedd** yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i Gaza. Dywedodd Llywodraeth Cymru **y byddai'n cyfrannu** at lansio apêl gan DEC ac y byddai toriadau yn y gyllideb yn effeithio ar ei **gallu i gyfrannu** (17.4% i'w chyllideb datblygu rhyngwladol ar gyfer 2024-25).

Ar 4 Tachwedd, **cytunodd y Pwyllgor Deisebau** i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch rhoddion anariannol a beth arall y gellid ei wneud.

Mae Aelodau o'r Senedd wedi **codi materion eraill** mewn perthynas â'r gwrthdaro, gan gynnwys ar waredu, gweithgynhyrchwyr arfau a diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â hawliau dynol a chaffael.

Ar 27 Chwefror 2024, **pleidleisiodd y Senedd i atal cydsyniad i'r Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)** na ddygwyd yn ei flaen wedyn oherwydd Etholiad Cyffredinol y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf.

Byddai'r Bil wedi atal cyrff cyhoeddus rhag cael eu dylanwadu gan anghymeradwyaeth wleidyddol neu foesol gwladwriaethau tramor wrth wneud penderfyniadau ynghylch caffael a buddsoddi. **Dywedodd Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig** y byddai'n atal awdurdodau lleol a chyrff eraill a gyllidir ag arian cyhoeddus rhag 'dilyn eu hagenda polisi tramor eu hunain'. Roedd **asesiad effaith** y Bil yn cyfeirio at ymgyrchoedd yn targedu Israel yn llethol. Fe'i cyflwynwyd yn Senedd y Deyrnas Unedig yn y mis Mehefin cyn ymosodiadau Hamas ar 7 Hydref 2023.

Ym **Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru**, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, Rebecca Evans AS, fod y Bil yn "anghymesur a diangen". Barn Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r Bil yn cyfyngu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru wrth wneud penderfyniadau am gaffael a buddsoddi. Ar ben hynny, dywedodd:

> Beth bynnag, nid wyf yn gallu argymell rhoi cydsyniad tra bo cwestiynau ynghylch cydnawsedd y Bil hwn â hawliau confensiwn [Siarter Hawliau Dynol Ewrop] a chyfraith ryngwladol.

## Wcráin

Mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd wedi cymryd nifer o gamau i gefnogi Wcráin a'r Wcrainiaid sy'n cyrraedd Cymru ers goresgyniad graddfa lawn Rwsia ym mis Chwefror 2022, fel yr eglurir yn yr erthyglau isod.

- **Y Senedd mewn undod ag Wcráin** (ymateb ar unwaith)
- **Cymru, Wcráin a'r rhyfel** (effeithiau cynnar ar ddiplomyddiaeth, bwyd, ynni, Brexit, masnach)
- **Cymru ac Wcráin: flwyddyn yn ddiweddarach** (yn cynnwys crynodeb o Ddatganiad Cymru 2014 NATO)
- **Cymru a'r rhyfel yn Wcráin: ddwy flynedd yn ddiweddarach** (ffocws ar ffoaduriaid a masnach)

Cyfeiriwyd at oblygiadau ehangach y gwrthdaro yn Wcráin yn y Senedd ar 3 Rhagfyr, pan **ddywedodd y Prif Weinidog mai'r rhyfel** yw un o'r rhesymau dros gostau ynni uwch.

## Y Cynllun Cenedl Noddfa

Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i **gynnal adnewyddiad** o'r **Cynllun Cenedl Noddfa**. Ym mis Ionawr 2024, dywedodd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd:

> We have begun the process of refreshing our Nation of Sanctuary Plan. We will engage with stakeholders who are affected by our policies, including local government, the third sector, private sector and people with lived experience. This work will continue throughout 2024 to ensure our revised plan is fit-for-purpose, meeting the needs of Welsh communities, including those seeking sanctuary.

Fodd bynnag, ar 17 Mehefin 2024, awgrymodd Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, **fod y dull gweithredu wedi newid. Dywedodd wrth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**:

> Personally, I don't think it needs a refresh, as such; I think we need to make sure that we are absolutely delivering. So, I've asked for more of an update, really, for the plan, rather than a complete new plan. I think we just need to look at what we've got, which is working—we know it's working, you only have to look at the number of Ukrainians, for instance, that we've had join us here in Wales. So, I would say—I think I'm right, aren't I, Amelia [swyddog yn Llywodraeth Cymru] —rather than a refresh, we're going for an update.

Ym mis Tachwedd 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth wedi ei ddiweddaru** gyda phennod ar y Genedl Noddfa (tt 66-71). Dywedir:

> Mae'r  bennod ddiwygiedig hon yn cydgrynhoi ac yn diweddaru ymrwymiadau blaenorol a wnaed yng Nghynllun 2019, pennod 2022, ac ymrwymiadau a wnaed mewn dogfennau eraill [...] Nid oes modd rhagweld y set nesaf o newidiadau na digwyddiadau byd-eang, felly mae'r dull gweithredu diwygiedig yn rhoi egwyddorion wrth wraidd y cynllun, yn hytrach na chanolbwyntio gormod ar gamau gweithredu a nodir.

## Trethi ffiniau carbon

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi **cyhoeddi mwy o fanylion** am ei chynlluniau i gyflwyno treth ffiniau carbon yn 2027.

Mae trethi ffiniau carbon yn berthnasol i fewnforion o ddiwydiannau carbon-ddwys. Gall mewnforion i diriogaeth sydd â threth ffin garbon yn ei lle wynebu trethi a gofynion adrodd ychwanegol. Cyfeirir atynt yn aml yn Saesneg fel "CBAM"

(Mecanweithiau Addasu Ffin Carbon).

Mae'r Mecanweithiau wedi eu cynllunio i atal 'gollyngiadau carbon', pan fo cwmnïau'n symud cynhyrchu i leoedd sydd â rheolau hinsawdd llai llym er mwyn osgoi mesurau lleihau allyriadau domestig, neu pan fydd nwyddau domestig yn cael eu disodli gan fewnforion mwy dwys o ran carbon. Mewn achosion o'r fath, gellir tanseilio ymdrechion domestig i leihau allyriadau, a gellir colli swyddi, tra bod ôl troed carbon y wlad yn aros yr un fath, neu hyd yn oed yn tyfu.

Daeth cam cyntaf CBAM yr Undeb Ewropeaidd i rym ym mis Hydref 2023, ac mae mewnforwyr yr Undeb Ewropeaidd wedi gorfod adrodd am allyriadau a briodolir i'w mewnforion mewn chwe diwydiant, gan gynnwys haearn a dur, sment a gwrtaith. O fis Ionawr 2026, bydd taliadau ychwanegol yn berthnasol i nwyddau a fewnforir yn seiliedig ar allyriadau'r mewnforion.

Mae rhagor o wybodaeth am CBAM a'u goblygiadau i Gymru, gan gynnwys ei diwydiant dur, i'w gweld yn erthygl Ymchwil y Senedd, **Ras yr Undeb Ewropeaidd i sero net a pham ei bod yn bwysig i bawb arall**.

## Cyllid ar gyfer mentrau newid hinsawdd rhyngwladol

Ymwelodd cynrychiolwyr o Genedl Wampís yn ardal afon Amason ym Mheriw â'r Senedd yn ystod mis Tachwedd a chyfarfod ag Aelodau'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ddatganiad i'r wasg** yn dilyn yr ymweliad, lle tynnodd sylw at gyllid blaenorol i gefnogi adeiladu cwch pŵer solar deg sedd, fel rhan o nod Cenedl Wampís i symud i ynni cwbl adnewyddadwy. Cyhoeddodd y datganiad i'r wasg hefyd fod £50,000 ychwanegol wedi ei ddarparu i Genedl Wampís i helpu i gyllido cychod llai.

## Addysg

### Dysgu Ieithoedd Tramor Modern

Mae Tueddiadau Ieithoedd Cymru y British Council yn arolwg blynyddol o ysgolion a gynhelir a cholegau ôl-16. Canfu'r arolwg diweddaraf, **Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2024** (Tachwedd 2024):

- Nododd bron i 70 y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd bod dim dysgwyr o gwbl neu lai na 10 y cant o ddysgwyr yn astudio Iaith Ryngwladol ym Mlwyddyn 10 ar gyfer TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall.

- Ers 2023, mae'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer TGAU Ffrangeg wedi cynyddu 5.5% (cyfanswm o 2,126 o geisiadau) a chynyddodd y cofrestriadau ar gyfer TGAU Almaeneg 23% (cyfanswm o 468 o geisiadau).
- Nid oes gan bron i hanner yr ysgolion uwchradd a ymatebodd ddarpariaeth ôl-16 mewn Ieithoedd Rhyngwladol. Yn yr ysgolion hynny sydd â darpariaeth ôl-16 mewn Ieithoedd Rhyngwladol, mae gan tua 60 y cant bump neu lai o ddysgwyr ym Mlwyddyn 12 ac ym Mlwyddyn 13.
- Ymatebodd pump o'r deuddeg coleg ôl-16 sy'n cynnig ieithoedd rhyngwladol i'r arolwg. Dywedodd pob un o'r colegau hynny fod ganddynt ddysgwyr Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 12 ac ym Mlwyddyn 13. Yn 2023, o'r colegau hynny sy'n cynnig ieithoedd rhyngwladol, dywedodd tri choleg nad oedd ganddynt ddysgwyr Ieithoedd Rhyngwladol o gwbl.
- Ar Safon Uwch, yn 2024 roedd 242 o gofrestriadau Ffrangeg o'i gymharu â 248 yn 2023;  139 o geisiadau Sbaeneg o'i gymharu â 171 yn 2023; a 62 cofrestriad mewn Almaeneg o'i gymharu â 65 yn 2023.

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Dyfodol Byd-eang: Cynllun i wella a hyrwyddo ieithoedd rhyngwladol yng Nghymru 2022 i 2025** sy'n nodi tri nod strategol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ieithoedd rhyngwladol (mae hyn yn cyfeirio at ieithoedd ac eithrio Cymraeg a Saesneg, a gall gynnwys ieithoedd cymunedol, ieithoedd modern, ieithoedd clasurol ac Iaith Arwyddion Prydain).

Mewn ymateb i **Gwestiwn Ysgrifenedig ar 14 Mehefin 2023**, Dywedodd Jeremy Miles, y Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg ar y pryd:

> The Curriculum for Wales provides exciting opportunities for language learning: modern foreign languages (MFL) are now mandatory in primary as well as secondary learning. Learners will need to demonstrate progression in an international language as they transition into secondary schools; international languages remain within the Curriculum for Wales guidance until 16.
>
> The decision about which languages are offered rests with individual schools. However, in planning their curriculum schools will not be able to support learners to develop towards the four purposes of the curriculum without offering opportunities for all learners to progress in their language learning.

Mewn ymateb i gwestiwn yn y **Cyfarfod Llawn ar 4 Rhagfyr 2024** dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle AS, ei bod hi wedi cytuno i ymestyn y cynllun Dyfodol Byd-eang am flwyddyn arall. Tynnodd sylw at rywfaint o'r gwaith sy'n digwydd yng Nghymru i gefnogi dysgu ieithoedd rhyngwladol. Dywedodd hefyd ei bod o'r farn y bydd cyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn yr ysgol

gynradd 'yn gwneud gwahaniaeth'.

## Myfyrwyr B(NO) Hong Kong yng Nghymru

Ar 18 Tachwedd 2024, ystyriodd y **Pwyllgor Deisebau** ddeiseb sy'n galw am roi statws ffioedd cartref i fyfyrwyr B(NO) Hong Kong ar ôl tair blynedd o breswylio.

Arferai pobl o Hong Kong allu cofrestru fel **Dinasyddion Prydeinig (Tramor)** cyn 1 Gorffennaf 1997. O ganlyniad, gallent hwy ac aelodau eu teulu fod yn gymwys i gael **Fisa Dinasyddion Prydeinig (Tramor)**, neu fisa BN(O) fel y'i galwyd, a fyddai'n caniatáu iddynt fyw, gweithio ac astudio yn y Deyrnas Unedig. Gall deiliaid fisa wneud cais i aros yn y Deyrnas Unedig am ddwy flynedd a chwe mis neu bum mlynedd. Ar ôl iddynt fyw yma am bum mlynedd, gall deiliaid fisa BN(O) wneud cais am statws 'sefydlog' i aros yn y Deyrnas Unedig am gyfnod amhenodol.

Ledled y Deyrnas Unedig, mae darparwyr addysg uwch yn dyrannu statws ffioedd i'w myfyrwyr sy'n pennu faint maent yn ei dalu am eu cyrsiau. Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu pwy sy'n talu ffioedd 'cartref' am gyrsiau addysg uwch yng Nghymru, sy'n cael eu nodi yn y rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr. Mae darparwyr addysg uwch yn asesu statws ffioedd eu myfyrwyr gan ddilyn y rheoliadau hyn. Yng Nghymru, **mae ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig llawn amser wedi eu capio ar £9,535** y flwyddyn ar gyfer 'myfyrwyr cartref' ar gyrsiau sy'n dechrau ar 1 Awst 2025 neu ar ôl hynny. Pennir ffioedd ar gyfer myfyrwyr 'rhyngwladol' (neu 'dramor') gan ddarparwyr, ac maent yn amrywio fesul cwrs, a gallant fod yn llawer uwch yn aml.

Yn gyffredinol, rhaid i unigolion fod yn preswylio ac yn 'sefydlog' yn y Deyrnas Unedig ar 'ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf' eu cwrs i fod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref a chymorth i fyfyrwyr. Rhaid iddynt hefyd fod wedi bod yn 'preswylio fel arfer' yn y Deyrnas Unedig am y tair blynedd cyn y dyddiad hwnnw.

Bydd rhywun sydd â fisa BN(O) dan gyfyngiadau yn ei arhosiad yn y Deyrnas Unedig, ac felly nid ydynt yn sefydlog. Gan hynny, yng Nghymru (ac yn Lloegr a Gogledd Iwerddon) nid ydynt yn gymwys i gael statws ffioedd cartref na chymorth i fyfyrwyr drwy gyllid cyhoeddus. Ar ôl iddynt fyw yn y Deyrnas Unedig am bum mlynedd, gallant wneud cais i **fyw yn y Deyrnas Unedig yn barhaol**, ac felly byddent yn dod yn gymwys i gael statws myfyriwr cartref. Mae eithriadau o ran rhai grwpiau o fyfyrwyr, fel myfyrwyr sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros yma – er enghraifft, y rhai sy'n dod dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin.

Yn yr Alban, o flwyddyn academaidd 2023-24 ymlaen, **bydd y rhai sy'n dal fisâu dinasyddion Prydeinig (Tramor) yn gymwys ar gyfer statws ffioedd cartref os ydynt yn bodloni'r meini prawf preswylio dros gyfnod o dair blynedd**.

Yn ei **hymateb i'r Ddeiseb**, dywedodd y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, Vikki Howells AS:

> Gallaf eich hysbysu ein bod yn adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â deiliaid y fisa Hong Kong a Dinasyddion Prydeinig (Tramor). Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o gymhwystra ar gyfer diogelu ffioedd dysgu a chymorth i fyfyrwyr. Bydd ein hadolygiad yn cael ei gynnal cyn blwyddyn academaidd 2026/27.

Cytunodd y Gweinidog hefyd i holi'r Gweinidog beth oedd amserlen yr adolygiad.